

# Chwarae o Safon

## Marc safon gwaith chwarae

Canllaw

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Beth yw sicrwydd ansawdd gwaith chwarae?** 4

**Mathau o asesu ansawdd** 5

**Ar gyfer pwy mae hwn?** 5

**Cefnogi ansawdd** 6

**Hawliau plant** 6

**Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae** 7

**Cymwysterau a hyfforddiant** 7

**Polisïau ategol** 8

**Ymarfer myfyriol** 9

**Deall y broses** 10

**Defnyddio'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*** 14

**Deall y dangosyddion ansawdd** 14

**Geirfa** 15

# Cyflwyniad

Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu Chwarae o Safon – marc safon gwaith chwarae. Yn defnyddio'r teitl Cymraeg yn y ddwy iaith, mae ei ddatblygiad wedi ei gefnogi gan grŵp cyfeirio arbenigol, yn cynnwys:

- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- gweithwyr chwarae
- hyfforddwyr gwaith chwarae
- cyflogwyr gwaith chwarae o leoliadau blynyddoedd cynnar, gwaith chwarae mynediad agored a gofal plant y tu allan i oriau ysgol.

Mae Chwarae o Safon yn ehangu ar, ac yn cymryd lle, *Yr Hawl Cyntaf … fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* (2001) ac *Yr Hawl Cyntaf – prosesau dymunol* (2002). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn dal ar gael ac yn parhau i fod yn ddeunydd cyfeirio defnyddiol.

Bwriedir i Chwarae o Safon gael ei ddefnyddio gan leoliadau gwaith chwarae gaiff eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ogystal ag mewn lleoliadau anrheoledig a'r rheini sy'n ymarfer gwaith chwarae mewn lleoliadau gwaith chwarae amhenodedig.

Mae Chwarae o Safon yn cynnwys pedair adran sy'n creu dau farc safon:

### Chwarae o Safon – marc safon ymarfer gwaith chwarae

1. Profiadau chwarae plant
2. Yr amgylchedd gwaith chwarae.

Mae'r marc safon ymarfer gwaith chwarae yn addas ar gyfer pob lleoliad sy'n defnyddio agwedd gwaith chwarae neu sydd â staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant neu gymwysterau gwaith chwarae ac sydd eisiau tystio i ymarfer gwaith chwarae da. Byddai hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith chwarae penodedig ond gallai hefyd gynnwys darpariaeth gwaith ieuenctid, y blynyddoedd cynnar, addysg, chwaraeon neu iechyd.

### Chwarae o Safon – marc safon polisi gwaith chwarae

3. Polisi ac ymarfer gwaith chwarae
4. Y sefydliad gwaith chwarae.

Mae'r marc safon polisi gwaith chwarae yn addas ar gyfer lleoliadau ble mai'r prif bwrpas yw cefnogi chwarae plant gan ddefnyddio agwedd gwaith chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig sy'n diffinio eu hunain fel:

- darpariaeth beripatetig neu geidwaid chwarae
- meysydd chwarae antur
- gofal plant y tu allan i oriau ysgol
- gwaith chwarae mynediad agored.

Mae'r marc safon hwn yn canolbwyntio ar y polisïau, y gweithdrefnau a'r ethos sefydliadol sy'n cefnogi'r ymarfer gwaith chwarae. Disgwylir y bydd lleoliadau eisoes wedi cwblhau'r marc safon ymarfer gwaith chwarae.


## Beth yw sicrwydd ansawdd gwaith chwarae?

Sicrwydd ansawdd gwaith chwarae yw'r broses o edrych yn fanwl ar ein hymarfer gwaith chwarae er mwyn gwella ansawdd profiadau chwarae plant yn yr ystod eang o leoliadau ble bydd gwaith chwarae'n digwydd. Mae'n ehangu ar gymwysterau, hyfforddiant, profiad a dealltwriaeth gweithwyr chwarae o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae'n ein helpu i edrych yn feirniadol ar elfennau penodol o'n gwaith (dangosyddion ansawdd) a sut y byddwn yn sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu cyflawni mewn egwyddor ac yn ymarferol. Mae'r broses hon o ddadansoddiad beirniadol wedi ei gwreiddio yn ein hethos proffesiynol trwy ymarfer myfyriol.

Mae Chwarae o Safon yn ffurfioli'r broses hon fel y gallwn dystio, i'n hunain ac i bobl eraill, bod ein hymarfer yn cydweddu gyda disgwyliadau ansawdd ein sector. Mae'n fuddiol yn ei rinwedd ei hun ar gyfer ein staff, ein lleoliad ac, wrth gwrs, y plant ond mae hefyd yn arddangos i rieni, cyllidwyr, ac i gyrff cyfreithiol a rheoleiddiol bod ein lleoliad yn un o safon. Dylai gefnogi prosesau sicrwydd ansawdd eraill.

Mae sicrwydd ansawdd yn broses barhaus. Mae Chwarae o Safon yn darparu fframwaith i ni ar gyfer asesu ble rydym ni ar hyn o bryd, drwy edrych yn fanwl ar brofiad chwarae'r plant, yr amgylchedd yr ydym yn ei hwyluso, sut y mae polisi ac ymarfer yn cefnogi chwarae plant a sut y mae ein sefydliad ehangach yn cefnogi'r elfennau eraill hyn. Unwaith ein bod yn gwybod ble rydym yn sefyll (asesu ansawdd) yna gallwn gynllunio ar gyfer yr hyn sydd angen inni ei wneud i wella elfennau penodol neu i sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal (sicrwydd ansawdd). Mae'r diagram isod yn bortread gweledol o hyn.

**Fframwaith ansawdd Chwarae o Safon – gyda phrofiadau chwarae plant yn y canol:**



## Mathau o asesu ansawdd

Mae Chwarae o Safon yn cynnwys hunanasesiad yn ogystal ag asesiad allanol, gan ddefnyddio'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* sydd ar gael ochr yn ochr â'r canllaw hwn.

Pan fyddwn yn dechrau ar y broses, dylem ddechrau gyda'r marc safon ymarfer gwaith chwarae a mynd trwy'r broses o hunanasesu. Mae hyn yn golygu edrych ar yr holl ddangosyddion ansawdd a'u defnyddio i fyfyrio ar ble rydym yn sefyll fel lleoliad gwaith chware yn erbyn pob dangosydd. Yn ogystal â'r dangosyddion ansawdd, mae Chwarae o Safon yn cynnwys mesurau mwy gwrthrychol ar gyfer 'yr hyn all plant ei ddisgwyl' yn erbyn pob dangosydd penodol. Dylai'r elfennau 'yr hyn all plant ei ddisgwyl' ein cynorthwyo gyda'n myfyrdodau a chasglu tystiolaeth.

Bydd y broses o hunanasesu'n ein helpu i ddynodi pa dystiolaeth sydd gennym eisoes yn erbyn pob un o'r dangosyddion ansawdd ac yna chynhyrchu tystiolaeth bellach, os oes angen. Os na fyddwn yn cyflawni un o'r dangosyddion ansawdd efallai y bydd angen inni wneud newidiadau. Gallai hyn gynnwys:

- cael mynediad i hyfforddiant
- ymchwil unigol
- ystyried casglu neu grynhoi gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- diwygio ein hymarfer
- canolbwyntio ar ein hymarfer myfyriol am ychydig wythnosau er mwyn tynnu tystiolaeth wahanol allan.

Mae'r broses hunanasesu hon yn gwbl sylfaenol i'n sicrwydd ansawdd – heb wybod ble rydym ni, allwn ni ddim cynllunio ble sydd angen inni fynd iddo nesaf. Mae Adran 5 o'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* yn rhoi proses inni gynllunio gweithredu er mwyn sicrhau (cynnal) ansawdd dros amser.

Unwaith inni gwblhau'r broses hunanasesu a'n bod yn hyderus o'n sicrwydd ansawdd, gall lleoliadau gofrestru gyda Chwarae Cymru ar gyfer asesiad allanol. Mae'r broses hon yn cael ei hegluro'n fanylach yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

## Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae Chwarae o Safon yn gofyn inni ymgysylltu gyda'r tîm staff cyfan i sicrhau bod yr agwedd broffesiynol a moesegol tuag at chwarae plant yn cael ei deall a'i gweithredu gan bawb.

### Ymarfer gwaith chwarae

Mae'r marc safon ymarfer gwaith chwarae wedi ei ddylunio fel bod y rheini sydd wedi cwblhau cymwysterau gwaith chwarae lefel 2 yn meddu ar y wybodaeth sylfaenol i ymateb i'r dangosyddion ansawdd. Mae'n gofyn inni fyfyrio ar ein hymarfer a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae er mwyn ystyried y gwahaniaeth gwirioneddol y mae ein hymarfer yn ei gael ar chwarae plant. Mae'r marc safon ymarfer gwaith chwarae'n mynnu hefyd bod y rheini sy'n gyfrifol am y lleoliad – yn gyflogwyr neu'n rheolwyr – yn deall ac yn cefnogi'r agwedd gwaith chwarae fel y gall ymarferwyr gyflawni eu swydd yn effeithlon.

### Polisi gwaith chwarae

Mae'r marc safon polisi gwaith chwarae yn mynd a'r sicrwydd ansawdd hwn i'r lefel nesaf ac yn ystyried sut y mae gweithrediad cyffredinol ein sefydliad yn cefnogi chwarae plant. Mae hyn yn cynnwys ein gweithdrefnau a'n polisïau gweithredol ond mae hefyd yn ystyried sut y byddwn yn ymgysylltu gyda sefydliadau eraill, y gymuned ehangach a sut y mae ein llywodraethiant a'n trefniadau ariannol yn sicrhau darpariaeth ddichonol a chynaliadwy ar gyfer plant. Tra dylai'r cysyniadau yn y marc safon polisi gwaith chwarae wneud synnwyr i bob aelod o staff ac, o ganlyniad, y dylent fod yn rhan o'r broses casglu tystiolaeth, bydd cyfrifoldeb cyffredinol am lawer o'r dangosyddion ansawdd yn aros gyda'r rheolwyr neu gyflogwyr.

Nid yw Chwarae o Safon yn cynnwys elfennau sy'n rhan o'n cyfrifoldeb cyfreithiol presennol, ac felly nid yw'n canolbwyntio ar wiriadau iechyd a diogelwch, gwiriadau diogelu neu staffio, heblaw am ble fo cysylltiad uniongyrchol gyda'n hymarfer gwaith chwarae neu ansawdd profiadau chwarae'r plant. Am y rheswm hwn, mae'n cynnwys dangosyddion ansawdd am asesu risg-budd chwarae plant ond nid ar gyfer gwiriadau iechyd a diogelwch adeiladau. Yn yr un modd, ceir dangosyddion ar gyfer addasrwydd staff o ran eu cymwysterau a'u profiad ond nid ar gyfer gwiriadau DBS. Mae Chwarae o Safon yn cefnogi ymarfer gwaith chwarae o safon ac felly, trwy ymgymryd â'r broses hon, byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff, yn cynnwys hyfforddeion, yn cael eu cynorthwyo i sefydlu agwedd gwaith chwarae.


# Cefnogi ansawdd

Yn yr adran hon, rydym yn archwilio'r pum elfen y dylai lleoliadau fod yn gyfarwydd â nhw er mwyn ymgymryd â Chwarae o Safon. Tra bo'r dangosyddion ansawdd a geir yn Chwarae o Safon yn ein cefnogi i feddwl sut y gallwn sicrhau bod ein lleoliad yn cyflawni gwaith chwarae o safon, ni fwriedir i'r dangosyddion gael eu hystyried ar wahân.

Cawn ein cefnogi yn ein hymarfer gwaith chwarae gan:

- Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol
- polisïau ategol
- ein hymarfer myfyriol ein hunain.

Dylai unrhyw ystyriaeth o waith chwarae o safon ddechrau gyda'r pum elfen hyn. Drwy ddeall yr elfennau hyn, gallwn ddeall Chwarae o Safon yn well a bod yn fwy abl i gwblhau'r broses casglu tystiolaeth.




## Hawliau plant

Mae gan bob plentyn hawl i chwarae fel y cydnabyddir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Caiff hwn ei gydnabod gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Mae Erthygl 31 y confensiwn yn datgan: 'Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ac adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau heb unrhyw rwystr.'

Cafodd yr hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn y confensiwn, ei egluro ymhellach i lywodraethau ar draws y byd yn 2013 pan fabwysiadodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol rhif 17 ar ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31.

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n egluro ymhellach ac sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen benodol o'r confensiwn. Ei nod yw pwysleisio pwysigrwydd yr erthygl a chynyddu atebolrwydd ymhlith y gwledydd sydd wedi arwyddo'r confensiwn.

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn anelu i gynyddu ymwybyddiaeth am chwarae yn fyd-eang a darparu arweiniad i lywodraethau ar yr hyn y mae rhaid iddynt ei wneud er mwyn ei weithredu. Tri amcan y sylw cyffredinol yw:

- cyfoethogi dealltwriaeth am bwysigrwydd yr erthygl er lles a datblygiad plant
- sicrhau parchu'r hawliau o dan Erthygl 31 yn ogystal â hawliau eraill y confensiwn
- pwysleisio'r oblygiadau a'r ymhlygiadau i lywodraethau, rolau a chyfrifoldebau'r sector preifat, a chanllawiau i unigolion sy'n gweithio gyda phlant.




Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal hawl plant i chwarae yn ei Pholisi Chwarae. Mae'r polisi'n cynnig diffiniadau ac yn pwysleisio'r angen i ddarparu amgylcheddau chwarae sy'n gwneud yn iawn am golled mannau a chyfleoedd i chwarae y mae plant ac arddegwyr yn eu profi yn y byd sydd ohoni.

Ar eu gwefan, mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, sy'n monitro ac amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc, yn datgan bod chwarae'n hawl, yn hytrach na braint.

## Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n hanfodol i ymarfer gwaith chwarae a dylid eu hystyried yn eu cyfanrwydd er mwyn myfyrio ar yr hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n hanfodol i Chwarae o Safon, felly mae dealltwriaeth drwyadl ohonynt yn gwbl angenrheidiol.

Mae chwarae'n bwysig i bob plentyn, waeth beth fo'u diwylliant, amhariad, rhyw, iaith, cefndir, ymddygiad neu angen. Mae chwarae'n cynnig buddiannau uniongyrchol, yn ogystal â thymor hirach, ac mae angen iddo fod o dan reolaeth y plentyn. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ein cynorthwyo i sicrhau bod ein dylanwad fel oedolion yn cefnogi ac yn cyfoethogi chwarae plant tra'n osgoi arwain y chwarae oni bai bod y plant yn gofyn inni.

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac, o ganlyniad, dylid eu hystyried fel cyfanwaith. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac maent yn darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y caiff capasiti datblygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc ei gyfoethogi o dderbyn mynediad i'r amrywiaeth ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar gael ar: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/yr-egwyddorion-gwaith-chwarae**

## Cymwysterau a hyfforddiant

Gall cymwysterau gwaith chwarae helpu i sicrhau bod staff yn ennill y wybodaeth broffesiynol sy'n angenrheidiol i fod yn weithiwr chwarae cymwys. Fodd bynnag, nid oes gan bob lleoliad dîm staff cwbl gymwysedig. Mae hyn oherwydd ystod eang o heriau sy'n cynnwys ariannu, amser a'r ffaith nad yw llawer o weithwyr chwarae mewn rolau amser llawn a/neu flwyddyn gron.

Dylai pob gweithiwr chwarae fod yn dysgu'n barhaus. Gelwir y broses hon yn Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac mae'n cynnwys cymwysterau a ffurfiau eraill o ddysgu, fel:

- astudio preifat
- cyrsiau hyfforddi
- myfyrio gydag eraill
- mynychu seminarau, gweminarau a chynadleddau.

Er mwyn bod yn alwedigaethol gymwys, bydd gweithwyr chwarae'n cyfuno eu hymarfer wyneb-yn-wyneb gyda chyfleoedd i ddysgu oddi wrth, a gydag eraill am ymchwil newydd a chyfredol a meddwl am chwarae a gwaith chwarae.

Bydd datblygu a diweddaru ein gwybodaeth am chwarae a gwaith chwarae yn barhaus yn ein helpu i ddeall sut y mae ymarfer gwaith chwarae o safon yn edrych. Bydd pobl sydd wedi cwblhau cymwysterau gwaith chwarae wedi cael eu hasesu ar eu gwybodaeth a'u gallu i ymarfer gwaith chwarae. Mae DPP yn sicrhau nad yw'r wybodaeth yma'n cael ei anghofio ac nad yw wedi dyddio.

Ble bynnag y bo modd, dylai cyflogwyr fod yn annog ac yn cefnogi gweithwyr chwarae i ennill cymwysterau. Bydd hyn nid yn unig yn cefnogi ansawdd yr ymarfer, ond hefyd broffesiynoli ein gweithlu. Trwy Chwarae o Safon drwyddo draw ceir cyfeiriadau at y cymwysterau gwaith chwarae cyfredol a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru a'u partneriaid, sydd ar gael trwy'r corff dyfarnu, Agored Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y dangosyddion ansawdd yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr hyn fydd gweithwyr chwarae'n ei ddysgu yn eu cymwysterau. Er mwyn cynorthwyo i alinio Chwarae o Safon gyda chymwysterau gwaith chwarae cyfredol a hanesyddol eraill, mae'n cydberthyn hefyd i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) y mae'r mwyafrif o gymwysterau gwaith chwarae'n seiliedig arnynt. Mae hyn yn sicrhau bod Chwarae o Safon yn adlewyrchu'r hyn y mae gweithwyr chwarae wedi ei ddysgu yn eu cymwysterau proffesiynol.

Gellir ystyried bod staff sydd wedi cwblhau cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd yn alwedigaethol gymwys ar adeg ennill eu cymhwyster. Er mwyn cwblhau marc safon Chwarae o Safon, dylem ystyried cymhwysedd galwedigaethol ein staff drwy ddefnyddio'r rhestr o ffactorau isod. Dylai pob aelod o staff galwedigaethol gymwys allu deall Chwarae o Safon a helpu i gasglu tystiolaeth.

At ddibenion Chwarae o Safon, mae cymhwysedd galwedigaethol yn cynnwys ystyried:

- profiad o weithio neu wirfoddoli mewn lleoliadau gwaith chwarae, a ddiffinnir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS, 2026) ar gyfer Gwaith Chwarae fel 'Rhywle ble mae plant a phobl ifanc yn cael cyfle i chwarae sydd wedi ei staffio gan weithwyr chwarae'
- dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- cynnal DPP rheolaidd sy'n berthnasol i waith chwarae
- dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored a darpariaeth mynediad caeëdig, fel gofal plant y tu allan i oriau ysgol, darpariaeth hamdden a chwaraeon
- y cymwysterau gwaith chwarae y mae staff yn meddu arnynt a phryd yr enillwyd y rhain.

## Polisïau ategol

Wrth ystyried ansawdd ein hymarfer dylem hefyd ystyried y polisi sy'n ein cynorthwyo yn ein gwaith. Ceir rhestr o bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i Gymru yn Atodiad 4 o'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*. Mae dealltwriaeth o bolisïau llywodraeth sy'n berthnasol i chwarae, addysg, y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac iechyd a diogelwch, i gyd yn ein cefnogi i roi agwedd gwaith chwarae ar waith yn ein lleoliadau.

Mae gweithwyr chwarae, rheolwyr a chyflogwyr yn elwa'n sylweddol o ddeall y cyd-destun polisi a sut y mae rhaglenni perthnasol y Llywodraeth yn cyd-gysylltu gydag ac yn cefnogi ein gwaith. Mae hyn yn ein cefnogi wrth eiriol dros ein lleoliad gwaith chwarae a dros chwarae plant yn fwy cyffredinol. Mae llawer o weithwyr chwarae'n gweithio mewn sectorau eraill hefyd, neu'n ymgysylltu'n aml iawn gyda phobl mewn sectorau eraill, felly mae dealltwriaeth dda o sut y mae gwaith chwarae'n ffitio gyda meysydd polisi eraill yn hynod o fuddiol.

Yn olaf, mae gan bolisïau llywodraeth sy'n ymwneud yn benodol â lleoliadau gwaith chwarae eu rôl eu hunain wrth gyfarwyddo'r hyn y gallwn ac na allwn ei wneud yn ein lleoliad. Gall y polisïau hyn un ai gefnogi neu gyfyngu ar ein hymarfer gwaith chwarae.

## Ymarfer myfyriol

Mae hwyluso chwarae plant yn rôl gymhleth a dyrys. Er mwyn helpu gyda'n gwaith fel gweithwyr chwarae gallwn dynnu ar ein gwybodaeth o'r broses chwarae a chael ein harwain gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n benodol i'n rôl a'n lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r rhain, ar eu pen eu hunain, yn ddigon. Mae'r amrywiaeth aruthrol o ymddygiadau chwarae gan wahanol blant gyda gwahanol anghenion yn golygu na allwn ni fyth fabwysiadu agwedd 'un maint sy'n gweddu i bawb'. Yn ogystal, fel gweithwyr chwarae unigol, daw pob un ohonom â'n profiadau a'n agweddau personol fydd yn dylanwadu ar ein hymarfer.

Mae ymarfer myfyriol yn fath o feddwl beirniadol sy'n ystyried ein profiadau a'n credau. Mae hyn yn cynyddu ein dealltwriaeth ac yn gwella ein hymarfer. Pan fyddwn yn fyfyriol, byddwn yn tyfu'n fwy hunanymwybodol ynghylch natur a dylanwad ein rôl. Mae'r ymwybyddiaeth yma'n creu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol. Pan fyddwn yn ceisio deall sefyllfa neu ddigwyddiad byddwn yn tynnu ar ein gwybodaeth a'n teimladau personol. Gallwn hefyd ddefnyddio syniadau o wahanol safbwyntiau a damcaniaethau. Trwy ddadansoddi, cymharu a chyfuno'r elfennau hyn gallwn ddatgelu dealltwriaethau newydd a gwella ein crebwyll. Mae ymarfer myfyriol yn hanfodol oherwydd:

- bod chwarae'n gymhleth – mae chwarae plant yn cael ei reoli gan eu greddfau naturiol ac effeithiau'r amgylchedd dynol a ffisegol, byddai ymateb 'un maint sy'n gweddu i bawb' gennym ni'n amhriodol.
- gallai pobl gael gwahanol bersbectifau ar chwarae o hyfforddiant arall neu brofiad o weithio mewn sectorau eraill.
- ni fydd yr un gweithiwr chwarae'n dechrau (na'n gorffen) eu gyrfa 'yn gwybod y cyfan'. Byddwn yn dysgu'n barhaus oddi wrth ein camgymeriadau a'n llwyddiannau ac yn cwestiynu ein rhagdybiaethau a'r ymarferion yn ein lleoliad.
- fel unigolion, byddwn yn dod â'n hatgofion, profiadau, emosiynau, hoff ddewisiadau a'n agendâu personol i'r amgylchedd chwarae. Os na fyddwn yn gwirio'r rhain, gallant lethu'r plentyn sy'n chwarae fel nad yw bellach yn rheoli ei chwarae ei hun. Yn aml, gall effaith posibl hyn gael ei asesu a'i gywiro trwy fyfyrio ac edrych yn fanylach ar ein hymarfer.



# Deall y broses

Mae'r siart llif isod yn disgrifio'r broses o ymgymryd â Chwarae o Safon.

### Cyfnod cynllunio

- Ymchwilio i Chwarae o Safon
- Llanw bylchau mewn gwybodaeth
- Marc safon ymarfer neu ymarfer a pholisi?
- Dechrau edrych ar hunanasesu a chasglu tystiolaeth

### Rhagasesu

- Cofrestru gyda Chwarae Cymru
- Cyfarfod cyntaf gyda'r asesydd (ar-lein neu dros y ffôn)

### Hunanasesu

- Cynnwys y tîm staff cyfan
- Adolygu'r dangosyddion ansawdd yn eu trefn yn drylwyr
- Ymarfer myfyriol
- Casglu tystiolaeth ar gyfer adran gyfan o'r fframwaith ansawdd

### Asesiad allanol 1/2

- Cyflwyno tystiolaeth
- Asesydd allanol i fynd trwy'r dystiolaeth
- Cyfweliadau asesydd-staff
- Asesydd i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer unrhyw welliannau

### Cynllunio gweithredu (dewisol)

- Defnyddio dogfen cynllunio gweithredu
- Dynodi cryfderau a gwendidau
- Dynodi ffactorau sy'n cyfrif yn erbyn ansawdd
- Ymateb i unrhyw sylwadau gan yr asesydd

### Marc safon

- Penderfyniad i ddyfarnu'r marc neu beidio
- Os na – mynd yn ôl at hunanasesu
- Os ie – bydd y lleoliad yn derbyn bathodyn digidol wedi ei stampio gyda'r dyddiad

## Cyfnod cynllunio

Bydd tîm staff a rheolwyr y lleoliad yn edrych ar y fframwaith ac yn dechrau ymchwilio sut i gyflawni'r gofynion tystiolaeth. Bydd angen penderfynu pa farc safon yr ydym am ei ymgymryd:

- Marc safon ymarfer gwaith chwarae
- Marc safon ymarfer a pholisi gwaith chwarae cyfun.

Mae'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* wedi ei ysgrifennu fel y dylai unrhyw un sydd wedi cwblhau'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) neu sy'n alwedigaethol gymwys mewn gwaith chwarae allu deall y dangosyddion ansawdd, yn cynnwys y dangosyddion 'yr hyn all plant ei ddisgwyl'.

Os oes gan y rheolwyr neu'r staff fylchau yn eu gwybodaeth yna mae'n bosibl y bydd angen derbyn hyfforddiant, cymwysterau neu gymorth pellach. Dysgwch fwy ar: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/cymwysterau-a-hyfforddiant**

Yn ogystal, mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau gwaith chwarae fydd yn ein helpu i ddeall pob elfen o agwedd gwaith chwarae. Mae'r canllawiau ar gael i'w lawrlwytho o: **www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**

## Hunanasesu

Dylai'r tîm staff cyfan gymryd rhan yn y cam hunanasesu, er ei bod yn debyg y bydd hyn yn galw am rywfaint o oruchwyliaeth a chydlynu gan y rheolwr neu'r person sy'n gyfrifol am goladu'r hunanasesiad ar ran y lleoliad. Bydd hyn yn golygu gweithio trwy'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* ac adolygu pob un o'r dangosyddion ansawdd yn eu tro'n drefnus a dynodi tystiolaeth addas neu ddatblygu tystiolaeth newydd os byddwch yn dynodi unrhyw fylchau.

Dylai lleoliadau gasglu ystod eang o dystiolaeth a, ble fo'n bosibl, ddynodi dulliau y maent yn eu defnyddio eisoes. Yn erbyn pob dangosydd, dylai lleoliadau ddethol un neu ddau ddarn o dystiolaeth sy'n adlewyrchu'n glir y dyhead i gyflawni'r dangosydd yn ogystal â'i ddefnydd ar waith.

Mae Atodiad 1 o'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* yn nodi enghreifftiau o'r ystod o dystiolaeth y gall lleoliadau ei ddarparu. Nid yw'r diffiniadau'n rhestr gyflawn, ond maent yn cynnig arwydd o'r mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio i gyfleu sut y mae'r lleoliad yn cyflawni'r dangosyddion ansawdd. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir fod mor benodol â phosibl.

Nid yw'r enghreifftiau yn Atodiad 1 yn rhestr gyflawn ac efallai y bydd gan staff y lleoliad syniadau eraill ynghylch sut i dystio i bob dangosydd ansawdd. Os defnyddir deallusrwydd artiffisial (AI) i gynhyrchu cofnodion cyfarfodydd neu dystiolaeth arall, dylid nodi hyn yn gwbl glir.

Gellir defnyddio'r rhestr wirio polisïau yn Atodiad 5 o'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* i groesgyfeirio'r dangosyddion ansawdd gyda pholisïau lleoliad perthnasol. Gall hyn fod yn ddefnyddiol ble fo polisi'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn mwy nag un o'r dangosyddion. Ble y defnyddir polisïau fel tystiolaeth, dylai'r dystiolaeth arall a gyflwynir gyda'r fframwaith dystio bod y polisi'n cael ei roi ar waith.

## Asesiad allanol

Yn dilyn y broses hunanasesu a chynllunio gweithredu, bydd angen i leoliadau sy'n dymuno ennill marc safon Chwarae o Safon gofrestru gyda Chwarae Cymru.

Codir tâl am asesiad allanol. Am y wybodaeth ddiweddaraf ar gostau, cysyllter â **gweithlu@chwarae.cymru**

Bydd angen ichi gasglu eich tystiolaeth i gyd mewn un lle. Byddem yn argymell ichi wneud hyn drwy ddefnyddio un ai:

- ffolder electronig
- ffeil lifer neu ffeil fodrwyog.

Caiff asesydd allanol ei benodi i adolygu'r dystiolaeth i gyd, yn cynnwys y cynllun gweithredu (os yn berthnasol). Bydd yr asesydd allanol yn adolygu'r dystiolaeth ac yn cofnodi eu penderfyniad yn y *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* ynghyd ag unrhyw adborth.

Bydd yr asesydd yn graddio'r dystiolaeth gan ddefnyddio Coch, Melyn a Gwyrdd (statws RAG):

- **Coch** – tystiolaeth annigonol neu ar goll
- **Melyn** – tystiolaeth yn cyflawni'r dangosydd ansawdd yn rhannol
- **Gwyrdd** – tystiolaeth ddigonol, dim angen tystiolaeth bellach.

Er y gallai'r broses hon fod yn gymharol ddynamig, mae'n bwysig darparu portffolio tystiolaeth llawn yn ystod y cyfnod asesu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir dyfarnu'r marc safon terfynol mewn modd amserol ac effeithlon.

Yn dilyn yr asesiad cyntaf, bydd yr asesydd yn cysylltu gyda'r lleoliad i drefnu cyfweliadau gyda'r staff, y rheolwyr a'r cyflogwyr. Bydd y cyfweliadau hyn yn cynorthwyo'r asesydd allanol wrth wirio bod y dystiolaeth a ddarperir yn cyflawni egwyddorion asesu VARCS, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 o'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*.

### Cynllunio gweithredu

Mae'r cam cynllunio gweithredu'n amlinellu pa dasgau y mae angen i'r lleoliad eu cwblhau i gynnal ansawdd neu i wella ymarfer i gyflawni'r dangosydd ansawdd. Mae hyn yn rhywbeth i'w drafod gyda'r asesydd allanol oherwydd efallai na fydd angen cwblhau'r tabl cynllunio gweithredu.

Yn ystod y cyfnod cynllunio gweithredu, mae'n bwysig cydnabod unrhyw ffactorau allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r dangosyddion ansawdd yn llawn. I rai lleoliadau, efallai na fydd modd cyflawni'r dangosyddion ansawdd yn eu cyfanrwydd, ac os oes rhesymau da am hyn, efallai y bydd yn dderbyniol.

Er enghraifft, efallai y bydd gan waith chwarae mewn lleoliad ysgol reolau gwahanol ynghylch ymddygiad o'i gymharu â maes chwarae antur wedi ei staffio. Yn yr un modd, bydd gan brosiect gwaith chwarae peripatetig sy'n symud o amgylch parciau cymunedol wahanol gyfyngiadau ar yr amgylchedd gwaith chwarae. Mae'r rhain yn 'ffactorau sy'n cyfrif yn erbyn ansawdd' ac mae'n bwysig bod cynllunio gweithredu a'r dystiolaeth yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn adlewyrchu hyn. Un rhan o gydnabod y rhwystrau hyn yw i'n helpu i ddynodi sut y gallwn gyflawni'r dangosyddion ansawdd, cyn belled ag y bo modd, ar gyfer ein lleoliad ni.

Nid yw'r rhestr isod yn un gyflawn, ond mae'r ffactorau y dylid eu hystyried yn cynnwys:

- safle'r lleoliad
- maint y lleoliad
- cyfanswm y gofod dan do/awyr agored
- lefelau staffio
- profiad y staff
- yr hyfforddiant a'r DPP sydd ar gael i'r staff
- gofod a rennir gydag eraill
- cyfyngiadau a osodir gan reolwyr neu landlordiaid y lleoliad
- ffactorau diwylliannol
- amddifadedd economaidd a chymdeithasol
- disgwyliadau rhieni
- disgwyliadau cymunedol
- beth arall sydd ar gael/ei angen gan y gymuned
- gofynion cyllidwyr
- argaeledd adnoddau.



## Dyfarnu'r marc safon

Unwaith i'r asesydd allanol adolygu'r dystiolaeth i gyd a chynnal unrhyw gyfweliadau gyda'r tîm staff ehangach (os ydynt wedi penderfynu bod hynny'n angenrheidiol), bydd yr asesydd yn penderfynu dyfarnu'r marc safon, neu beidio. Os nad yw'r lleoliad wedi darparu digon o dystiolaeth foddhaol, bydd yr asesydd yn argymell camau gweithredu y dylid eu cymryd ac yna bydd angen dychwelyd i'r cam hunanasesu.

Os yw'r lleoliad wedi cwblhau'r broses marc safon a bodloni'r asesydd allanol, byddant yn derbyn:

- hysbysiad bod y marc safon wedi ei ddyfarnu
- adborth oddi wrth yr asesydd
- marc safon digidol wedi ei stampio â'r flwyddyn y'i dyfarnwyd.

Gellir defnyddio'r marc safon digidol mewn llofnodion ar e-byst, cyhoeddusrwydd, ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Gweler canllaw logo Chwarae o Safon am fwy o fanylion.

## Y broses apeliadau

Os yw lleoliadau'n anhapus gyda'r canlyniad, gallant apelio yn erbyn penderfyniad yr asesydd allanol yn ysgrifenedig i Chwarae Cymru. Dylid cyflwyno'r apêl o fewn tair wythnos o dderbyn penderfyniad yr asesydd.

Cynullir panel apeliadau i edrych ar y dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r apêl a byddant yn dod i benderfyniad i un ai wrthod neu dderbyn yr apêl.

Unwaith i'r panel apeliadau draddodi eu barn, hysbysir y lleoliad. Ni fydd penderfyniad y panel i beidio dyfarnu'r marc safon yn effeithio ar unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i gwblhau Chwarae o Safon.

# Defnyddio'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*

At ddibenion Chwarae o Safon, defnyddir y diffiniadau canlynol:

- **Chwarae** – mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid (Egwyddor Gwaith Chwarae 2). Chwarae yw unrhyw ymddygiad, gweithgaredd neu broses gaiff ei sbarduno, ei rheoli a'i strwythuro gan blant. Bydd yn digwydd pryd bynnag a ble bynnag y bydd cyfle'n codi. Nodweddion allweddol chwarae yw hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol (Sylw Cyffredinol rhif 17).
- **Gwaith chwarae** – 'mae gwaith chwarae'n agwedd unigryw tuag at weithio gyda phlant o bob oed mewn ystod eang o leoliadau. Pwrpas allweddol y gweithiwr chwarae yw cefnogi a hwyluso chwarae fel y disgrifir gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae' (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae, 2026). Efallai y bydd gweithwyr chwarae'n meddu ar gymwysterau gwaith chwarae.
- **Gweithiwr chwarae** – gweithiwr proffesiynol sy'n defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae fel fframwaith canolog ar gyfer eu gwaith gydag ac ar ran plant.
- **Lleoliad gwaith chwarae** – unrhyw leoliad ble y bydd gwaith chwarae'n digwydd.

## Deall y dangosyddion ansawdd

Dylai staff ddefnyddio'r dangosyddion ansawdd, ynghyd â 'yr hyn all plant ei ddisgwyl', fel pwyntiau ar gyfer myfyrio, a hynny'n unigol ac fel tîm.

### Adran 1 – Profiadau chwarae plant

- Mae'r dangosyddion ansawdd yn mynegi'r hyn mae gweithwyr chwarae'n ei wneud yn uniongyrchol i gefnogi chwarae plant
- Mae'r dangosyddion ansawdd yn mynegi'r hyn mae'r plant yn ei wneud
- Mae ymarfer wedi ei seilio'n gadarn ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- Bydd arsylwadau o chwarae plant, cofnodion myfyriol ac enghreifftiau o leisiau'r plant yn ffurfio llawer o'r dystiolaeth.

### Adran 2 – Yr amgylchedd gwaith chwarae

- Mae'r dangosyddion ansawdd yn seiliedig ar nodweddion amgylchedd chwarae o safon – sydd wedi eu cynnwys yng nghanllawiau statudol *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* (2025)
- Mae'r dangosyddion ansawdd yn canolbwyntio ar sut y mae gweithwyr chwarae'n gwneud yr amgylchedd yn ofod sy'n cefnogi chwarae i ddigwydd
- Mae'r dangosyddion ansawdd yn canolbwyntio ar sut y mae ymddygiad chwarae'r plant yn edrych yn yr amgylchedd gwaith chwarae
- Mae tystiolaeth yn gyfuniad o dystiolaeth o ymarfer wyneb-yn-wyneb yn ogystal â thystiolaeth o gynllunio a pharatoi.

### Adran 3 – Polisi ac ymarfer gwaith chwarae

- Mae'r dangosyddion ansawdd yn canolbwyntio ar bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad sy'n cefnogi ymarfer gwaith chwarae
- Sut y mae ymarfer yn cael ei ategu gan CCUHP
- Ceir ffocws penodol ar reoli risg, rheoleiddio ymddygiad, technoleg ddigidol ac ymgysylltu gyda'r gymuned
- Bydd tystiolaeth yn cynnwys enghreifftiau o bolisïau a chynhyrchion gwaith eraill ond bydd angen iddo bwysleisio sut y maent yn cael eu rhoi ar waith.

### Adran 4 – Y sefydliad gwaith chwarae

Nid yw'r adran hon yn cynnwys pwyntiau penodol yn erbyn pob dangosydd ar gyfer yr hyn all plant ei ddisgwyl. Yn hytrach, gall y plant, yn gyffredinol, ddisgwyl lleoliad gwaith chwarae:

- sy'n cael ei redeg yn effeithlon
- sy'n cynllunio ar gyfer cynaladwyedd
- sy'n trosglwyddo sesiynau fel y'i hysbysebwyd
- sydd â threfniadau diogelu digonol
- sydd â thîm o staff gaiff eu cefnogi'n dda
- sy'n cydymffurfio gyda dyletswyddau cyfreithiol
- sy'n cydymffurfio gyda disgwyliadau cyllidwyr.

Bydd tystiolaeth yn cynnwys enghreifftiau o bolisïau a chynhyrchion gwaith eraill ond bydd angen iddo bwysleisio sut y maent yn cael eu rhoi ar waith.

### Adran 5 – Cynllunio gweithredu

- Defnyddiwch y tabl i ddynodi camau gweithredu i gynnal ansawdd neu feysydd i'w gwella. Yma, gallwch hefyd ddynodi unrhyw ffactorau sy'n cyfrif yn erbyn ansawdd.
- Mae cynllunio gweithredu'n rhan hanfodol o'r broses i dystio y gallwch barhau i gynnal ansawdd yn eich lleoliad.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Chwarae o Safon** | Chwarae o Safon ydi enw'r cynllun cyflawn. Mae Chwarae o Safon yn cynnwys y canllaw hwn a'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*. Mae'r *Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth* yn cynnwys dangosyddion ansawdd ar gyfer lleoliadau i'w defnyddio i gynnal yr hunanasesiad, cyn i'r asesiad allanol ddigwydd, er mwyn ennill un ai un neu ddau farc ansawdd. |
| ***Fframwaith hunanasesu a thystiolaeth*** | Mae'r fframwaith yn dabl sydd wedi ei greu o:<br>• ddangosyddion ansawdd<br>• enghreifftiau o'r hyn all plant ei ddisgwyl<br>• pa dystiolaeth ellir ei defnyddio<br>• dolenni i wybodaeth ategol.<br>Dyma'r brif ddogfen y bydd lleoliadau'n ei defnyddio i gasglu tystiolaeth ar gyfer cyflawni'r marc safon. |
| **Dangosyddion ansawdd** | Dyma'r dangosyddion i leoliadau brofi eu bod yn cyflawni gofynion Chwarae o Safon. Er enghraifft, 'Mae'r plant yn dewis sut, beth a gyda phwy, i chwarae' – mae angen i leoliadau ddynodi tystiolaeth sy'n dangos y gall hyn ddigwydd yn eu lleoliad nhw. |
| **Hunanasesu** | Hon yw'r broses y bydd lleoliad yn mynd trwyddi, yn cynnwys pob aelod o staff, i edrych trwy'r fframwaith ac asesu sut y mae'r lleoliad yn perfformio yn erbyn y dangosyddion ansawdd. |
| **Asesiad allanol** | Bydd Chwarae Cymru'n penodi asesydd, fydd yn edrych ar y dystiolaeth a ddarperir yn erbyn pob un o'r dangosyddion ansawdd, ac yn gwneud penderfyniad annibynnol os yw'r lleoliad yn cyflawni anghenion Chwarae o Safon. Mae'n broses debyg i gael gwaith cwrs wedi ei farcio gan arholwr neu asesydd wrth astudio ar gyfer cymhwyster. |
| **Marc safon** | Mae hwn yn fathodyn digidol gaiff ei stampio gyda'r flwyddyn yr enillwyd marc safon Chwarae o Safon. Gall lleoliadau arddangos y marc safon ar gyhoeddusrwydd neu ei ddefnyddio mewn e-byst, ac ar eu cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau. Bydd lleoliadau'n ennill un ai'r marc safon Ymarfer gwaith chwarae neu'r marc safon Ymarfer a pholisi gwaith chwarae cyfun. |

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Mawrth 2026